Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

David Melding AM
Chair, Constitutional and Legislative Affairs Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

20 July 2012

Dear David

**Business Committee – Review of Committee Structure and Timetable**

You will be aware that when the Business Committee agreed the committee structure in June 2011 we also agreed to review how well the structure was working after around 12 months. The Committee considered the attached paper at its meeting on 26 June (Annex 1) and this letter summarises the results of our discussion, along with further discussions in July on the timetable.

A feature of the committee structure in this Assembly is that subject-based committees carry out both **legislative and policy scrutiny**. The system we put in place provided time, and sufficiently large memberships, to allow work to be undertaken in smaller groups where committees felt that was appropriate and necessary to balance these responsibilities. The model also aimed to bring the subject specialism of Members to bear on the scrutiny of legislation. Our view is that the dual legislative and policy scrutiny role has yet to be fully tested and so we conclude that no change to the fundamental structure is necessary at this point. We will, though, keep the system under review as the volume of legislation increases.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 2089 8911
Ebost/Email: private.office@wales.gov.uk

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

We discussed the **mainstreaming of European issues** across all committees and agreed that it has worked well, creating a higher profile and more thorough scrutiny for European matters as a result.

We also considered the pressures that have arisen around the **committee timetable** and in particular the difficulties experienced by Public Accounts Committee and the Constitutional & Legislative Affairs Committee. The PAC is the only committee in our system that is required by the Government of Wales Act 2006 and it fulfils a critical role in the parliamentary scrutiny of government expenditure. Over the coming months the Committee will also be undertaking the legislative scrutiny of the Public Audit (Wales) Bill. The Committee has encountered considerable difficulty in fulfilling its role within the constraints of the much more limited time slot assigned to it on Tuesday mornings. The CLA Committee meets on a Monday afternoons and this has caused practical difficulties for some Members.

Overall, our view is that the timetable works well, barring these two issues, in allowing effective committee work within the constraints we face as a small legislature. We agreed to make slots available on Monday afternoons for the Public Accounts Committee, in addition to the weekly Tuesday slot, and to let the Committee decide which slots it needs to use. We also acknowledged that there might need to be flexibility with political group meetings on Tuesday mornings to accommodate longer meetings where necessary. We also agreed that the Constitutional and Legislative Affairs Committee should continue to be scheduled in its Monday slot. We will give further consideration to the use of Monday as part of the regular committee timetable during the autumn term.

In our original report to the Assembly defining the remits of committees, we also set out **the role that committee chairs must fulfil on behalf of the Assembly** in delivering its strategic objectives (see Annex 2). One year on, we would value your feedback in the light of experience on the value of this role description, to you and your committee, and any suggestions you have for its improvement.

Should you wish to let the Business Committee have your views on these decisions, or any aspect of the committee system, I would welcome that.

Rosemary

**Rosemary Butler AM, Presiding Officer**

**Annexes**
Paper to Business Committee – Review of Committee Structure (June 2012)
Business Committee Report: Committee Portfolios and Responsibilities in the 4th Assembly (June 2011)

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

David Melding AC
Cadeirydd, Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

20 Gorffennaf 2012

Annwyl David

**Y Pwyllgor Busnes - Adolygiad o Strwythur ac Amserlen Pwyllgorau**

Byddwch yn ymwybodol, pan gytunodd y Pwyllgor Busnes ar strwythur y pwyllgorau ym mis Mehefin 2011, cytunwyd hefyd i gynnal adolygiad ar ôl tua 12 mis i weld pa mor dda oedd y strwythur yn gweithio. Bu'r Pwyllgor yn trafod y papur atodedig yn ei gyfarfod ar 26 Mehefin (Atodiad 1) ac mae'r llythyr hwn yn rhoi crynodeb o'r drafodaeth yn ogystal â thrafodaethau pellach am yr amserlen ym mis Gorffennaf.

Un o nodweddion strwythur pwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad yw bod pwyllgorau sy'n ymwneud â phynciau penodol yn **craffu ar ddeddfwriaeth a pholisiau**. Roedd y system a roddwyd ar waith yn caniatáu i Aelodau ymgymryd â gwaith mewn grwpiau llai, os oedd y pwyllgorau o'r farn y byddai hynny'n briodol ac yn angenrheidiol, i gydbwyso'r cyfrifoldebau hyn. Roedd y model yn anelu, hefyd, at ddefnyddio arbenigedd Aelodau i graffu ar ddeddfwriaeth. Rydym o'r farn nad yw'r rôl o graffu ar ddeddfwriaeth a pholisïau wedi cael ei phrofi'n llawn hyd yma, ac felly'n teimlo nad oes angen gwneud unrhyw newid sylfaenol i'r strwythur ar hyn o bryd. Wrth i lefel y ddeddfwriaeth gynyddu, fodd bynnag, byddwn yn parhau i adolygu'r system.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 2089 8911
Ebost/Email: private.office@wales.gov.uk
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

Trafodwyd y mater o **brif-ffrydio materion Ewropeaidd** ym mhob pwyllgor a chytunwyd bod hyn wedi gweithio'n dda gan roi proffil uwch i faterion Ewropeaidd a bod y gwaith o graffu arnynt wedi bod yn fanylach.

Trafodwyd, hefyd, y problemau sydd wedi codi ynglŷn ag **amserlen y pwyllgorau** ac yn benodol y problemau y mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi'u cael. Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yw'r unig bwyllgor yn ein system sy'n ofynnol yn ôl Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ac mae'n cyflawni rôl hanfodol yn ei waith o graffu ar wariant y Llywodraeth. Dros y misoedd nesaf, bydd y Pwyllgor yn gwneud gwaith craffu deddfwriaethol ar Fil Archwilio Cyhoeddus (Cymru). Mae'r Pwyllgor wedi cael anawsterau mawr wrth gyflawni ei rôl o fewn yr amser mwy cyfyngedig sydd wedi'i neilltuo ar ei gyfer ar fore dydd Mawrth. Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn cwrdd ar brynhawn dydd Llun ac mae hyn wedi peri anawsterau i rai Aelodau.

Ar y cyfan, rydym o'r farn bod yr amserlen yn gweithio'n dda, ar wahân i'r ddau fater hyn, sy'n caniatáu i'r pwyllgorau weithio'n effeithiol o fewn y cyfyngiadau sy'n ein hwynebu fel deddfwrfa fach. Cytunwyd y byddai amser ar gael ar brynhawn dydd Llun i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gwrdd, yn ogystal â'r amser sydd ar gael ar ddydd Mawrth, ac mae'r Pwyllgor gaiff benderfynu pa amser mae am ei ddefnyddio. Rydym hefyd yn cydnabod y bydd angen sicrhau hyblygrwydd o ran cyfarfodydd y grwpiau plaid ar fore dydd Mawrth, a hynny er mwyn caniatáu amser ar gyfer cyfarfodydd hwy yn ôl yr angen. Cytunwyd hefyd y dylid parhau i gynnal cyfarfod y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn yr amser a neilltuwyd iddo ar ddydd Llun. Byddwn yn trafod defnyddio'r amser ar ddydd Llun fel rhan rheolaidd o amserlen y pwyllgorau yn ystod tymor yr hydref.

Yn ein hadroddiad gwreiddiol i'r Cynulliad, sy'n diffinio cylch gwaith pwyllgorau, nodwyd hefyd **y rôl y mae'n rhaid i gadeiryddion pwyllgorau ei chyflawni ar ran y Cynulliad** i gyflawni ei amcanion strategol (gweler Atodiad 2). Gan fod blwyddyn wedi mynd heibio, byddem yn gwerthfawrogi adborth ar werth y disgrifiad hwn i chi a'ch pwyllgor, ac unrhyw awgrymiadau sydd gennych ar sut i'w wella.

Os hoffech rannu eich barn am y penderfyniadau hyn â'r Pwyllgor Busnes, neu unrhyw agwedd ar y system bwyllgorau, byddem yn croesawu hynny.

Rosemary

**Rosemary Butler AC, Llywydd**

**Atodiadau**
Papur y Pwyllgor Busnes - Adolygiad o Strwythur Pwyllgorau (Mehefin 2012)
Adroddiad y Pwyllgor Busnes: Portffolios a Chyfrifoldebau'r Pwyllgorau yn y Pedwerydd Cynulliad (Mehefin 2011)